# Cefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu’r gofynion wrth helpu unigolion i symud o gwmpas yn ddiogel ac yn annibynnol mewn mannau penodol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion mewn mannau dan do ac yn yr awyr agored, fel eu cartrefi, eu gweithleoedd neu eu cymunedau. Mae'n golygu gweithio gydag unigolion i asesu eu galluoedd, symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd, a gwerthuso cynnydd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am symudedd, galluoedd a dewisiadau unigolion wrth symud o gwmpas mannau penodol
2. cefnogi unigolion i nodi eu canlyniadau ar gyfer symud a dod o hyd i'r ffordd yn ddiogel ac yn annibynnol
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i asesu eu cryfderau, diogelwch ac annibyniaeth pan fyddant yn symud o gwmpas ac yn dod o hyd i'r ffordd
4. cefnogi unigolion i asesu cryfderau a chyfyngiadau'r cymorth a'r cymhorthion sydd ar gael
5. cefnogi unigolion i asesu heriau a risgiau sy'n gysylltiedig â hygyrchedd
6. cyfrannu at gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth am heriau a risgiau sy'n gysylltiedig â hygyrchedd
7. cael gafael ar wybodaeth am rwydweithiau presennol a allai ddarparu cymorth ychwanegol
8. cefnogi unigolion i wneud penderfyniadau am lefel y cymorth sydd ei angen
9. cefnogi ac annog unigolion i symud o gwmpas yn ddiogel ac yn annibynnol gan ddefnyddio'r lefelau cymorth y cytunwyd arnynt
10. cyfrannu at arsylwi unigolion wrth iddynt symud o gwmpas a dod o hyd i'r ffordd mewn mannau penodol
11. cyfrannu eich arsylwadau i adrodd yn ôl ar gynnydd a chanlyniadau gyda'r unigolyn ac eraill, a nodi'r newidiadau sydd eu hangen
12. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol
13. myfyriwch ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a’u gallu i symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol, a sut mae adolygu ac adrodd yn ôl ynghylch yr wybodaeth honno
2. sut mae cael gafael ar asesiad risg unigolyn i’w gefnogi i symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol, a’i ddilyn
3. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol
4. y ffactorau cymdeithasol, emosiynol a chorfforol sy'n effeithio ar annibyniaeth a diogelwch unigolion wrth symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd
5. heriau hygyrchedd sy'n effeithio ar ddiogelwch ac annibyniaeth yr unigolyn
6. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar sut mae unigolion yn symud o gwmpas ac yn dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol
7. dylanwad diwylliant a chefndir ar sut mae unigolion yn symud o gwmpas ac yn dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol
8. manteision iechyd a llesiant symud yn amlach
9. sut mae cefnogi unigolion i gynllunio mannau byw fel bod modd symud cymaint â phosibl a lleihau’r risgiau
10. y mathau o gymhorthion a chyfarpar a all gefnogi unigolion i symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd yn ddiogel ac yn annibynnol
11. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol
12. sut mae creu amgylcheddau cynaliadwy diogel, cynhwysol ac sy’n ystyriol o’r synhwyrau
13. pwysigrwydd sicrhau bod cymhorthion symud yn lân, yn gweithio, ac yn cael eu defnyddio'n gywir
14. dulliau o roi cymorth corfforol diogel i unigolion fel bod modd iddynt symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol
15. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol
16. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol
17. y peryglon a’r risgiau posibl wrth gefnogi unigolyn i symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol

18. gwasanaethau sy’n rhoi cyngor, arweiniad a chymorth penodol ynghylch hygyrchedd a symud o gwmpas mannau penodol
19. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol
20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol
21. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i symud o gwmpas a dod o hyd i’r ffordd mewn mannau penodol
22. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol
23. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol
24. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol
25. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i symud o gwmpas mannau penodol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD215 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Symud, Mannau Penodol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |